# Canllaw i Aelodau

## CANLLAW I'CH YMDDEOLIAD O'R CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (CPLlL)

**EBRILL 2025**

Cronfa Bensiwn **GWYNEDD** Pension Fund

# Cynnwys


**Cynnwys** 2

- **Rhan 1 – Y CPLlL** **3**
  - **Buddion y Cynllun** 3
  - **Sut caiff eich buddion o'r CPLlL eu cyfrifo** 4
  - **Cymryd lwmp swm di-dreth wrth ymddeol** 10
  - **Cynyddu eich pensiwn** 12
  - **Treth a'ch pensiwn** 13
  - **Ar ôl i chi gymryd eich pensiwn** 14
  - **Cymryd eich pensiwn CPLlL – y broses** 15
  - **Cymorth os oes gennych gwestiwn neu gŵyn** 19
- **Rhan 2 – Gwybodaeth Ddefnyddiol Arall** **20**
  - **Pensiwn y Wladwriaeth** 20
  - **Treth a'ch pensiwn** 20
  - **Olrhain hawliau pensiwn blaenorol** 21
  - **Sgamiau pensiwn** 21
  - **Ble i fynd am gymorth** 23
- **Cynllunydd Cyllideb** **24**
- **Sut i gael gwybod mwy** **25**
- **Diogelu Data** **26**
- **Ymwrthodiad** **26**

# Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn i chi os ydych chi'n talu i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ar hyn o bryd, ac yn cynllunio eich ymddeoliad.



Mae rhan 1 y canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am y CPLlL. Mae'n sôn am y warchodaeth ariannol mae'r CPLlL yn ei gynnig i chi a'ch teulu. Mae rhan 1 hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ymddeol a'r penderfyniadau y mae'n rhaid i chi eu gwneud.

Mae rhan 2 yn edrych yn ehangach ar faterion a allai effeithio arnoch yn eich ymddeoliad. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am drethu a Phensiwn y Wladwriaeth. Gallwch hefyd weld dolenni a manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau all eich cefnogi.

Diben y canllaw hwn yw eich cynorthwyo wrth i chi gynllunio eich ymddeoliad. Ni ddylech ei ddefnyddio yn lle cyngor ariannol. Os oes arnoch angen cyngor ariannol, dylech benodi ymgynghorydd ariannol annibynnol.

# Rhan 1 – Y CPLlL

# Buddion y Cynllun

## Pensiwn diogel

Caiff eich pensiwn ei gyfrifo ym mhob blwyddyn Cynllun ac mae'n seiliedig ar eich tâl pensiynadwy. Mae blwyddyn y Cynllun yn gorffen ar 31 Mawrth. Yn y mis Ebrill yn dilyn diwedd y flwyddyn, caiff eich pensiwn ei addasu yn unol â newidiadau mewn costau byw. Gallwch ddarllen mwy yn Sut caiff eich buddion o'r CPLlL eu cyfrifo yn yr adran nesaf.

## Pensiynau goroeswyr

Ar ôl i chi farw, bydd pensiwn yn cael ei dalu i'ch:



- gŵr/gwraig
- partner sifil neu
- bartner sy'n cyd-fyw (mae amodau cymhwyso yn berthnasol) am weddill eu bywydau.

Efallai y bydd pensiynau plant hefyd yn daladwy.

### Cymryd lwmp swm

Pan fyddwch chi'n cymryd eich pensiwn, mae gennych yr opsiwn o gyfnewid rhywfaint ohono am lwmp swm di-dreth. Bydd y lwmp swm yn cael ei dalu'n ddi-dreth yn y mwyafrif o achosion. Fodd bynnag, mae yna derfyn ar faint o arian di-dreth y gallwch ei gymryd o'ch pensiwn. Os byddwch yn mynd dros y terfyn hwnnw, bydd rhaid i chi dalu treth ar eich cyfradd ymylol.



### Rhyddhad treth

Mae cyfraniadau pensiwn yn cael eu cymryd o'ch cyflog cyn i'r dreth gael ei chyfrifo. Os ydych chi'n talu treth, fel aelod o'r Cynllun byddwch yn talu llai o dreth ar eich enillion.

### Hyblygrwydd i dalu mwy neu dalu llai

Gallwch dalu hanner eich cyfraniadau arferol yn gyfnewid am gronni hanner eich pensiwn arferol. Caiff hyn ei adnabod fel adran 50/50 y Cynllun.

Gallwch gynyddu eich pensiwn drwy dalu mwy o gyfraniadau. Gallwch ddarllen rhagor am dalu'n ychwanegol yn yr adran Cynyddu eich pensiwn o'r canllaw hwn.

### Yswiriant bywyd

Os byddwch yn marw tra rydych yn aelod actif o'r CPLlL, telir grant marwolaeth sy'n dair gwaith eich tâl pensiynadwy tybiedig. Mae'r tâl pensiynadwy tybiedig yn amcangyfrif o'ch tâl pensiynadwy blynyddol arferol.  Bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn penderfynu i bwy i dalu'r grant marwolaeth, ond bydd yn cymryd eich dymuniadau i ystyriaeth. Cysylltwch â ni am ffurflen mynegiant o ddymuniad er mwyn diweddaru'r manylion, neu logiwch i mewn i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein.

#### Gwybodaeth bellach

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y buddion o fod yn aelod o'r CPLlL ar wefan aelodau'r CPLlL. Gallwch hefyd wylio'r fideos Pensions made simple.

## Sut caiff eich buddion o'r CPLlL eu cyfrifo

Ar 1 Ebrill 2014 fe newidiodd y CPLlL o gynllun tâl terfynol i gynllun cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2014, mae'r buddion gaiff eu cronni yn y CPLlL yn cael eu cyfrifo dan reolau'r cynllun cyfartaledd gyrfa.

Os wnaethoch chi ymuno â'r Cynllun yn 1 Ebrill 2014, byddwch hefyd wedi cronni buddion yn y cynllun tâl terfynol.

### Sut caiff eich buddion eu cyfrifo ar ôl 1 Ebrill 2014

Bob blwyddyn, mae 1/49fed o'ch tâl pensiynadwy yn cael ei roi yn eich cyfrif pensiwn. Caiff eich pensiwn ei warchod os yw eich tâl yn is na'r arfer oherwydd salwch neu absenoldeb yn gysylltiedig â phlant.

Yn y mis Ebrill yn dilyn diwedd pob blwyddyn, caiff eich cyfrif pensiwn ei addasu i gymryd costau byw i ystyriaeth. Mae'r tabl yn yr enghraifft isod yn dangos sut mae hyn yn gweithio.

## Sut mae eich buddion yn cael eu cyfrifo rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014

Am bob blwyddyn o aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2008 a 1 Ebrill 2014, byddwch yn derbyn pensiwn o 1/60fed o'ch **tâl terfynol**.

Eich **tâl terfynol** fel arfer yw'r tâl pensiynadwy rydych yn ei ennill yn y flwyddyn cyn gadael y Cynllun. Gellir defnyddio'r tâl o un o'r ddwy flynedd cynt, os yw'n uwch.

## Sut mae eich buddion yn cael eu cyfrifo cyn 1 Ebrill 2008

Am bob blwyddyn o aelodaeth cyn 1 Ebrill 2008, byddwch yn derbyn pensiwn o 1/80fed o'ch **tâl terfynol**, a lwmp swm o 3/80fed o'ch **tâl terfynol**.

## Gweithio'n rhan amser

Os oeddech chi'n gweithio'n rhan amser cyn 1 Ebrill 2014, caiff eich aelodaeth ei leihau'n unol â hynny. Er enghraifft, os oeddech chi'n gweithio 17.5 awr yr wythnos a bod yr oriau cyfwerth llawn amser ar gyfer y swydd yn 35 awr yr wythnos, bydd eich aelodaeth yn cael ei leihau 17.5/35, sy'n hanner. Rydym yn defnyddio eich tâl cyfwerth llawn amser i gyfrifo eich buddion.

Mae'r enghraifft isod yn dangos sut mae buddion CPLlL yn cael eu cyfrifo i aelod:

- ymddeol ar oedran pensiwn arferol ar 31 Mawrth 2026
- gyda 30 mlynedd o aelodaeth CPLlL
- y tâl terfynol yn £43,000
- ac wedi cronni cyfrif pensiwn ers 1 Ebrill 2014 fel y dengys y tabl.

## Enghraifft 1 – cyfrifo buddion CPLlL

Buddion yn seiliedig ar 12 mlynedd o aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2008:

Pensiwn: 13/80fed x £43,000 = **£6,450**

Lwmp swm: 3 x 13/80fed x £43,000 = **£19,350**

Buddion yn seiliedig ar chwe blynedd o aelodaeth o 1 Ebrill 2008 hyd at 31 Mawrth 2014:

Pensiwn: 6/60fed x £43,000 = **£4,300**

**Tabl 1: Buddion wedi eu cronni yn y cynllun cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014.**

| Blwyddyn y cynllun | Balans agoriadol | Pensiwn a gronnwyd ym mlwyddyn y Cynllun | Cyfanswm cyfrif 31 Mawrth | Addasiad cost byw (CPI) | Cyfanswm cyfrif wedi'i ddiweddaru |
|---|---|---|---|---|---|
| 2014/15 | £0.00 | £27,600 ÷ 49 = £563 | £563 | £7 (1.2%) | £570 |
| 2015/16 | £570 | £28,100 ÷ 49 = £573 | £1,143 | -£1.00 (-0.1%) | £1,142 |
| 2016/17 | £1,142 | £29,900 ÷ 49 = £610 | £1,752 | £18 (1.0%) | £1,770 |
| 2017/18 | £1,770 | £30,600 ÷ 49 = £624 | £2,394 | £72 (3.0%) | £2,466 |
| 2018/19 | £2,466 | £30,900 ÷ 49 = £631 | £3,097 | £74 (2.4%) | £3,171 |
| 2019/20 | £3,171 | £32,700 ÷ 49 = £667 | £3,838 | £65 (1.7%) | £3,903 |
| 2020/21 | £3,903 | £33,400 ÷ 49 =£682 | £4,585 | £23 (0.5%) | £4,608 |
| 2021/22 | £4,608 | £34,800 ÷ 49 = £710 | £5,318 | £165 (3.1%) | £5,483 |
| 2022/23 | £5,483 | £35,800 ÷ 49 = £731 | £6,214 | £621 (10.1%) | £6,835 |
| 2023/24 | £6,835 | £39,400 ÷ 49 = £804 | £7,639 | £512 (6.7%) | £8,150 |
| 2024/25 | £8,150 | £42,150 ÷ 49 = £860 | £9,010 | £288 (1.7%) | £9,163 |
| 2025/26 | £9,163 | £43,000 ÷ 49 = £878 | £10,041 | £201 (2.0%*) | £10,242 |

* ffigwr tybiedig

Mae gan yr aelod hawl i:

| | |
|---|---|
| **Pensiwn blynyddol** | **£20,992** |

Sydd wedi'i ffurfio o bensiwn a gronnwyd:

| | |
|---|---|
| cyn 1 Ebrill 2008 | £6,450 |
| rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014 | £4,300 |
| ar ôl 31 Mawrth 2014 | £10,242 |

| | |
|---|---|
| **Lwmp swm di-dreth** | **£19,350** |

## Gwarchodaeth danategol (*underpin*)

Pan newidiodd y CPLlL o gynllun tâl terfynol i gynllun cyfartaledd gyrfa yn 2014, roedd aelodau hŷn wedi'u gwarchod rhag y newidiadau. Mae'r llysoedd wedi canfod bod hyn wedi camwahaniaethu yn erbyn aelodau iau o gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill am nad oedd mesurau gwarchod tebyg ar eu cyfer hwy.

Fe newidiodd rheolau'r CPLlL yn 2023 i gael gwared ar y camwahaniaethu hwn. Y term a ddefnyddir am y newidiadau hyn yw'r 'datrysiad McCloud'. Efallai fod eich pensiwn CPLlL wedi'i warchod gan y tanategiad os:

- gwnaethoch ymuno â'r CPLlL neu gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus gwahanol cyn 1 Ebrill 2012
- ydych yn troi'n 65 oed ar ôl 1 Ebrill 2014
- oeddech yn aelod o'r CPLlL rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022, a
- nad ydych wedi cael toriad sy'n eich anghymhwyso. Toriad sy'n anghymhwyso yw toriad o fwy na pum mlynedd pan nad oeddech yn talu i mewn i'r CPLlL nac unrhyw gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall.

Nid oes angen i chi wneud hawliad am y warchodaeth danategol. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen i Gronfa Pensiwn Gwynedd eich holi am aelodaeth flaenorol o'r CPLlL neu gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus gwahanol i weld a ydych wedi eich gwarchod.

Os ydych wedi eich gwarchod, pan fyddwch yn ymddeol bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gwirio i weld a fyddai'r pensiwn wnaethoch ei gronni yn y cyfnod tanategiad wedi bod yn fwy dan y cynllun tâl terfynol. Petai wedi bod yn fwy, bydd eich pensiwn yn cael ei gynyddu. Mae cyfnod y tanategiad yn rhedeg o 1 Ebrill 2014 tan 31 Mawrth 2022. Fe wnaeth eich gwarchodaeth orffen yn gynt os gwnaethoch droi'n 65 oed cyn 31 Mawrth 2022.



### Gwybodaeth bellach

Am ragor o wybodaeth am [Sut caiff eich pensiwn CPLlL ei gyfrifo] ac i ddefnyddio modelwr ar-lein, ewch i [wefan aelodau'r CPLlL]. Am ragor o wybodaeth am y warchodaeth danategol, gweler yr adran [datrysiad McCloud] ar y wefan.

## Pa bryd y gallwch chi gymryd eich pensiwn

Gallwch ddewis rhoi'r gorau i weithio a chymryd eich pensiwn ar unrhyw amser rhwng 55 a 75 oed. Eich oedran pensiwn arferol (OPA) yw'r oedran lle cewch ymddeol a chymryd y pensiwn rydych wedi ei gronni heb ostyngiadau ymddeoliad cynnar.




Ar gyfer y pensiwn a gronnwyd o 1 Ebrill 2014, mae eich OPA yr un fath â'ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth (OPW), ond gydag oedran isafswm o 65. Gallwch ganfod eich OPW drwy ddefnyddio [cyfrifwr Oedran Pensiwn y Wladwriaeth y Llywodraeth].

Mae'r OPA yn 65 oed ar gyfer unrhyw fuddion y gwnaethoch eu cronni cyn 1 Ebrill 2014. Mae'n rhaid i chi gymryd eich holl bensiwn CPLlL ar yr un pryd.

### Cymryd eich pensiwn cyn eich OPA

Nid oes unrhyw leihad os ydych yn cymryd eich pensiwn ar eich OPA. Os byddwch yn cymryd eich pensiwn yn gynnar cyn eich OPA, bydd yn cael ei leihau. Mae'r lleihad yn seiliedig ar sawl blwyddyn sydd yna o'r dyddiad pan rydych yn cymryd eich pensiwn at eich OPA. Os nad yw nifer y blynyddoedd yn union, caiff y canran lleihad ei addasu.

### Ffactorau lleihad ymddeoliad cynnar

Y Llywodraeth sy'n gosod y ffactorau lleihad ymddeoliad cynnar. Gallant amrywio o bryd i'w gilydd. Mae'r tabl isod yn dangos y ffactorau lleihad sydd mewn grym ar hyn o bryd:

**Tabl 2: Ffactorau lleihad ymddeoliad cynnar**

| Nifer y blynyddoedd a delir yn gynnar | Lleihad pensiwn | Lleihad lwmp swm (ar gyfer aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2008) |
|---|---|---|
| 0 | 0% | 0% |
| 1 | 5.1% | 2.3% |
| 2 | 9.9% | 4.6% |
| 3 | 14.3% | 6.9% |
| 4 | 18.4% | 9.1% |
| 5 | 22.2% | 11.2% |
| 6 | 25.7% | 13.3% |
| 7 | 29.0% | 15.3% |
| 8 | 32.1% | 17.3% |
| 9 | 35.0% | 19.2% |
| 10 | 37.7% | 21.1% |
| 11 | 41.6% | n/a |
| 12 | 44.0% | n/a |
| 13 | 46.3% | n/a |




Os oeddech yn aelod o'r CPLlL ar 30 Medi 2006, mae'n bosib y bydd eich buddion i gyd neu ran ohonynt, wedi'u gwarchod rhag y lleihad o dan y rheol '85 mlynedd'. Gallwch ddarllen mwy am Cymryd eich pensiwn CPLlL a'r rheol 85 mlynedd ar y wefan aelodau.

## Cymryd eich buddion ar ôl eich OPA

Os byddwch yn aros mewn gwaith ar ôl eich OPA, byddwch yn parhau i dalu i mewn i'r CPLlL a chronni buddion pellach. Mae'n rhaid i chi gymryd eich pensiwn erbyn byddwch yn 75 oed.

Os byddwch yn oedi cymryd eich pensiwn, bydd eich buddion yn cael eu cynyddu. Mae'r cynnydd yn seiliedig ar ba mor hir ar ôl eich OPA rydych yn cymryd eich pensiwn.

## Gwaeledd

Os oes rhaid i chi adael gwaith oherwydd salwch, efallai y byddwch yn gallu derbyn eich pensiwn CPLlL yn syth. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr fod yn fodlon eich bod yn barhaol yn methu gwneud eich gwaith tan eich OPA **ac** nad oes gennych y gallu ar hyn o bryd i ymgymryd â swydd gyflogedig. Mae'n rhaid i'r cyflogwr gael barn gan feddyg iechyd galwedigaethol annibynnol cyn iddo wneud penderfyniad.

Gellir talu buddion gwaeledd ar unrhyw oedran, ac ni chânt eu lleihau am eu bod yn cael eu talu'n gynnar.  Yn wir, mae'n bosib y caiff eich buddion eu cynyddu i wneud i fyny am eich ymddeoliad cynnar.

## Addasiad cost byw

Mae eich pensiwn CPLlL yn cynyddu'n unol â'r gost byw bob blwyddyn trwy gydol eich ymddeoliad. Os yw'r gost o fyw yn codi, felly hefyd bydd eich pensiwn.

## Diswyddo ac effeithlonrwydd busnes

Bydd y buddion CPLlL rydych wedi eu cronni yn cael eu talu'n syth heb unrhyw ostyngiadau ymddeoliad cynnar os:

- ydych yn 55 mlwydd oed neu hŷn
- ydych wedi bod yn aelod o'r Cynllun am o leiaf dwy flynedd, a
- bod eich cyflogwr yn eich diswyddo neu cewch eich ymddeol ar sail effeithlonrwydd busnes.



## Ymddeoliad hyblyg

O 55 oed ymlaen, os ydych yn cwtogi eich oriau neu'n symud i swydd ar raddfa is, a bod eich cyflogwr yn cytuno, gallwch gymryd rhywfaint neu'r cyfan o'r buddion pensiwn rydych wedi eu cronni.

Gallwch ennill eich cyflog o'ch swydd sydd ag oriau/graddfa is, a pharhau i dalu i mewn i'r CPLlL, gan gronni buddion pellach yn y Cynllun.

## Newidiadau oedran pensiwn

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yr oedran ieuengaf pan allwch gymryd eich pensiwn yn cynyddu o 55 i 57 mlwydd oed o 6 Ebrill 2028. Nid yw hyn yn berthnasol os oes rhaid i chi gymryd eich pensiwn yn gynnar oherwydd gwaeledd.

Fe allech gael eich gwarchod rhag y cynnydd hwn os gwnaethoch ymuno â'r CPLlL cyn 4 Tachwedd 2021. Mae'n bosib y cewch hefyd eich gwarchod os byddwch yn trosglwyddo pensiwn blaenorol i'r CPLlL a'ch bod yn cwrdd ag amodau penodol. Byddwch ond yn gallu defnyddio'r warchodaeth hon pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn CPLlL os yw rheolau'r CPLlL yn caniatáu i chi gymryd eich pensiwn cyn eich bod yn 57 oed.

Nid yw'r Llywodraeth wedi cadarnhau eto p'un a fydd yn caniatáu i aelodau sy'n gymwys am warchodaeth i gymryd eu buddion CPLlL cyn eu bod yn 57 oed o fis Ebrill 2028 ymlaen.

## Gwybodaeth bellach

Gallwch ddarllen mwy am Cymryd eich pensiwn CPLlL. Gallwch hefyd wylio'r fideos Pensions made simple o'r enw ‘Bywyd ar ôl gwaith’ a ‘Gwarchodaeth i chi a’ch teulu’.


# Cymryd lwmp swm di-dreth wrth ymddeol

Pan fyddwch chi'n cymryd eich pensiwn, gallwch ddewis cyfnewid rhywfaint ohono am lwmp swm. Am bob £1 o bensiwn blynyddol y byddwch yn ei ildio, byddwch yn derbyn lwmp swm o £12.

Os gwnaethoch ymuno â'r CPLlL cyn 1 Ebrill 2008, yna byddwch yn derbyn lwmp swm di-dreth wrth ymddeol. Bydd gennych hefyd y dewis i gyfnewid rhan o'ch pensiwn er mwyn cynyddu eich lwmp swm.

Gall y rhan fwyaf o aelodau gymryd hyd at 25% o werth cyffredinol eu pensiwn fel lwmp swm. Bydd y lwmp swm yn ddi-dreth fel arfer. Mae CThEF (HMRC) yn cyfyngu cyfanswm yr arian di-dreth y gallwch ei gymryd o holl gynlluniau pensiwn y DU. Y terfyn yw £268,275. Efallai y bydd terfyn uwch yn berthnasol os oes gennych warchodaeth rhag y lwfans oes. Os ewch dros y terfyn, bydd rhaid i chi dalu treth ar y gormodedd ar eich cyfradd ymylol.

## Enghraifft 2: cyfnewid pensiwn am lwmp swm




Pan mae Liz yn ymddeol, mae ganddi bensiwn blynyddol safonol o £11,300 a lwmp swm di-dreth awtomatig o £18,750. Gall Liz gymryd hyd at 25% o'r gwerth cyfalaf fel lwmp swm di-dreth, sy'n £55,125. Os bydd yn gwneud hyn, bydd yn derbyn £36,375 fel lwmp swm a bydd ei phensiwn blynyddol yn lleihau £3,031 i £8,269.

Mae cymryd lwmp swm mwy yn lleihau **eich** pensiwn **chi** ond nid yw'n lleihau unrhyw bensiwn goroeswr a delir ar ôl i chi farw i'ch priod, partner sifil, partner cyd-fyw sy'n gymwys, neu blentyn.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn meddwl yn ofalus am yr opsiwn hwn cyn i chi gymryd eich pensiwn. Ni fydd hi'n bosib gwyrdroi eich penderfyniad ar ôl i'ch pensiwn gael ei dalu. Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am yr opsiwn hwn pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn. Gweler Cymryd eich pensiwn CPLlL – y broses am ragor o fanylion.

Byddwn yn gofyn i chi am fanylion unrhyw lwmp symiau di-dreth rydych eisoes wedi eu derbyn pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn.

### Ailgylchu

Os ydych yn defnyddio eich lwmp swm di-dreth i gynyddu'n sylweddol y cyfraniadau rydych yn eu talu i gynllun pensiwn, gelwir hyn yn 'ailgylchu'. Mae hyn yn faes cymhleth a bydd CThEF ond yn ystyried bod ailgylchu wedi digwydd os yw'r holl amodau perthnasol wedi'u bodloni. Os yw CThEF yn ystyried bod ailgylchu wedi digwydd, yna bydd rhaid i chi dalu treth ychwanegol.

Gallwch ganfod mwy am ailgylchu lwmp swm gan CThEF. Efallai y byddai'n syniad ceisio cyngor ariannol rheoledig os ydych chi'n meddwl bod ailgylchu'n berthnasol i chi.

#### Gwybodaeth bellach

Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth a defnyddio cyfrifwr lwmp swm ar wefan aelodau'r CPLlL.

## Cynyddu eich pensiwn

Bydd y cynllunydd cyllideb ar ddiwedd y canllaw hwn yn eich helpu i gyfrifo pa incwm y bydd arnoch ei angen pan fyddwch yn stopio gweithio. Yn yr adran hon, rydym yn edrych ar ffyrdd y gallwch gynyddu'r incwm hwnnw.

Gallwch dalu cyfraniadau ychwanegol i gynyddu eich pensiwn drwy dalu:

- Cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY)
- Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol mewnol (CGY)
- Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) ar wahân
- i mewn i bensiwn personol neu bensiwn rhan-ddeiliad



### Cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY)

Os ydych ym mhrif adran y Cynllun, gallwch dalu cyfraniadau ychwanegol i brynu hyd at £8,344 o bensiwn blynyddol.  Mae unrhyw bensiwn ychwanegol a brynwch yn cael ei ychwanegu at eich pensiwn CPLlL. Gallwch dalu am y pensiwn ychwanegol hwn drwy gyfraniadau rheolaidd o'ch cyflog neu drwy dalu lwmp swm.

### Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol mewnol

Mae cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) yn caniatáu i chi dalu mwy i gronni cynilion ychwanegol ar gyfer eich ymddeoliad.  Mae CGY mewnol yn cael eu buddsoddi ar wahân mewn cronfeydd a reolir gan ein darparwr CGY mewnol, Clerical Medical. Byddech yn cael rhyddhad treth ar y cyfraniadau CGY rydych yn eu talu.

Fe allai eich cyflogwr gynnig CGY Cost a Rennir drwy drefniant aberthu cyflog. Pe byddent yn cynnig hyn, byddech chi a'ch cyflogwr yn talu llai mewn yswiriant gwladol. Gwiriwch gyda'ch cyflogwr a ydynt yn cynnig cynllun aberthu cyflog ar gyfer cyfraniadau CGY.

Pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn CPLlL, gallwch ddefnyddio eich cronfa CGY i brynu incwm gwarantedig am oes (blwydd-dal) neu i brynu pensiwn CPLlL atodol. Yn amodol ar derfynau CThEF, mae'n bosib y gallwch gymryd hyd at 100% o'ch cronfa CGY fel lwmp swm di-dreth. Gallwch drosglwyddo eich cronfa CGY i gynllun neu drefniant pensiwn arall ar unrhyw bryd cyn i chi gymryd eich pensiwn CPLlL.



### Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhydd (CGYRh)

Mae'r rhain yn debyg i'r CGY mewnol ond nid ydynt wedi'u cysylltu â'r CPLlL mewn unrhyw ffordd. Gyda CGYRh, chi sy'n dewis darparwr, fel arfer cwmni yswiriant. Efallai yr hoffech ystyried y gwahanol daliadau a godir gan y cwmnïau, y buddsoddiadau amgen a'u perfformiad yn y gorffennol.

### Pensiynau personol neu gyfran-ddeiliaid

Gallwch dalu i gynllun pensiwn personol neu gynllun pensiwn cyfran-ddeiliaid ar yr un pryd â thalu i'r CPLlL. Mae angen i chi ystyried taliadau, buddsoddiadau amgen a pherfformiad blaenorol pan fyddwch yn dewis darparwr.

**Mae'n syniad da cael cyngor ariannol cyn cytuno i unrhyw fath o gynllun cynilo pensiwn ychwanegol.**

## Gwybodaeth bellach

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynghylch talu mwy i gynyddu eich pensiwn ar wefan aelodau'r CPLlL. Gallwch hefyd wylio'r fideos Pensions made simple, gan gynnwys 'Rheoli eich pensiwn'.

# Treth a'ch pensiwn

Un o'r buddion o gynilo pensiwn gyda'r CPLlL yw eich bod yn derbyn rhyddhad treth ar y cyfraniadau a dalwch. Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) yn cyfyngu faint o ryddhad treth pensiwn y gallwch ei dderbyn. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu cynilo cymaint ag y maent yn ei ddymuno gan y bydd eu cynilion pensiwn yn llai na'r terfynau.

Os ydych yn meddwl am dalu'n ychwanegol, mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r terfynau hyn. Nid oes unrhyw derfyn ar faint o gyfraniadau y gallwch eu talu. Byddwch ond yn cael rhyddhad treth ar gyfraniadau hyd at 100% o'ch enillion trethadwy mewn blwyddyn dreth.



## Lwfans blynyddol

Y lwfans blynyddol yw’r terfyn ar faint gaiff eich buddion pensiwn gynyddu mewn unrhyw un flwyddyn heb i chi orfod talu tâl treth.

Yn y CPLlL, swm y lwfans blynyddol a ddefnyddir yw'r twf yng ngwerth eich buddion pensiwn dros y flwyddyn dreth.

Ar gyfer trefniadau prynu arian, megis cynlluniau CGY, y lwfans blynyddol rydych yn ei ddefnyddio yw cyfanswm y cyfraniadau a dalwyd gennych chi, ac ar eich rhan, dros y flwyddyn dreth.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi os yw eich cynilion pensiwn CPLlL yn uwch na'r lwfans blynyddol safonol drwy anfon datganiad cynilion pensiwn atoch. Mae'n rhaid i ni anfon y datganiad atoch erbyn 6 Hydref ar ôl diwedd y flwyddyn dreth.

**Pwysig:** efallai eich bod yn talu i fwy nag un cynllun pensiwn. Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio nad yw cyfanswm eich cynilion pensiwn ar draws yr holl gynlluniau yn uwch na'r terfyn lwfans blynyddol.

## Gwybodaeth bellach

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y lwfans blynyddol, gan gynnwys teclyn i wirio eich sefyllfa, ar wefan aelodau'r CPLlL. Gallwch hefyd wylio'r fideo Pensions made simple,'Eich lwfans blynyddol'.

# Ar ôl i chi gymryd eich pensiwn

Yn yr adran hon rydym yn edrych ar bethau all ddigwydd unwaith rydych yn cymryd eich pensiwn CPLlL.



## Rydych yn cael swydd newydd

Os byddwch yn cael swydd newydd mewn llywodraeth leol, neu gyda chyflogwr sy'n cynnig aelodaeth o'r CPLlL, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym yn ysgrifenedig. Fel arfer ni chaiff eich pensiwn ei effeithio.

Os ydych yn derbyn pensiwn gwaeledd haen 3, mae'n rhaid i chi adael i'ch cyn-gyflogwr wybod os byddwch yn cychwyn unrhyw waith cyflogedig.

Os ydych yn dychwelyd i'r gwaith, mae'n bosib y bydd eich cod treth yn newid. Gall y swyddfa dreth roi rhagor o fanylion.

## Rydych yn symud dramor

Yn gyffredinol, bydd modd talu eich pensiwn CPLlL i gyfrif banc tramor. Os ydych yn meddwl am symud dramor, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda i sicrhau bod eich taliadau pensiwn yn parhau.



## Mae eich statws priodasol yn newid

Mae angen i chi roi gwybod i ni am unrhyw newid yn eich statws priodasol drwy anfon ymlaen gopi o'r dystysgrif wreiddiol.  Mae hyn yn sicrhau, pe byddech yn marw, fod gennym y manylion diweddaraf.

Efallai y byddwch hefyd eisiau llenwi ffurflen mynegiant o ddymuniad newydd, i roi gwybod i ni i bwy yr hoffech i ni dalu unrhyw grant marwolaeth.

## Rydych yn newid cyfeiriad

Os byddwch yn symud tŷ neu'n newid cyfrif banc, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith. Cysylltwch â ni yn ysgrifenedig cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda i roi'r manylion newydd i ni.

## Buddion marwolaeth



Unwaith rydych yn cymryd eich pensiwn, caiff ei dalu i chi am weddill eich oes.

Petaech yn marw ar ôl i chi gymryd eich pensiwn, bydd eich taliadau pensiwn yn stopio. Dylai eich perthynas agosaf neu'r person sy'n delio â'ch ystâd, roi gwybod i ni am eich marwolaeth. Dylent wneud hyn cyn gynted â phosib fel na chaiff eich pensiwn ei or-dalu.

Os byddwch yn marw cyn rydych yn 75 oed a bod llai na deng mlynedd o bensiwn wedi'i dalu i chi, gellir talu grant marwolaeth lwmp swm. Byddai'r swm sy'n daladwy yn:

- ddeg gwaith eich pensiwn blynyddol (wedi'i addasu os gwnaethoch gyfnewid pensiwn am lwmp swm di-dreth)
- llai y pensiwn sydd eisoes wedi'i dalu i chi.

Bydd pensiwn goroeswr yn cael ei dalu i'ch priod neu bartner sifil ar ôl i chi farw. Mae modd hefyd i bensiwn goroeswr gael ei dalu i'ch partner a/neu blant sy'n cyd-fyw, ond mae amodau cymhwyso penodol yn berthnasol.

## Gwybodaeth bellach

Gallwch ganfod mwy am fuddion marwolaeth yn y CPLlL ar wefan aelodau'r CPLlL.  Gallwch hefyd wylio'r fideos Pensions made simple, yn cynnwys 'Gwarchodaeth ar gyfer eich teulu'.

# Cymryd eich pensiwn CPLlL – y broses

Yn yr adran hon rydym yn edrych ar:

- yr hyn y dylech feddwl amdano wrth gynllunio i gymryd eich pensiwn CPLlL, a
- beth sy'n digwydd nesaf pan ydych wedi gwneud penderfyniad terfynol i ymddeol.

## Hyfforddiant cyn ymddeol

Mae rhai cyflogwyr yn cynnig cyrsiau ar gyfer eu gweithwyr sy'n agos at oed ymddeol. Bydd y pynciau a drafodir yn amrywio, yn dibynnu ar bwy sy'n darparu'r cwrs. Mae mynd i'r math hwn o sesiwn yn gallu:

- rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi am beth y dylech ei ystyried cyn ymddeol
- rhoi'r cyfle i gael arbenigwr i ateb eich cwestiynau
- bod yn fforwm i rannu eich barn a'ch profiadau gyda chydweithwyr sydd hefyd yn agos at ymddeol.

Cysylltwch â'ch cyflogwr i weld pa hyfforddiant maent yn ei gynnig.

## Cyfnod rhybudd

Mae'r broses i dalu eich pensiwn CPLlL yn gallu bod yn gymhleth. Efallai y bydd angen i chi roi mwy o rybudd i'ch cyflogwr na'r cyfnod sydd wedi'i nodi yn eich contract cyflogaeth, i wneud yn siŵr bod eich pensiwn yn cael ei dalu ar amser.

## Incwm a gwario ar ôl ymddeol

Mae'n bwysig eich bod yn meddwl am eich incwm ymddeol cyn i chi adael eich swydd. Bydd rhai costau'n gostwng ar ôl i chi roi'r gorau i weithio. Mae'n siŵr y bydd eich costau teithio yn lleihau, mae'n debygol y byddwch yn talu llai o dreth ac ni fyddwch yn talu yswiriant gwladol. Efallai y bydd costau eraill megis biliau'r tŷ yn cynyddu ar ôl i chi stopio gweithio.

Yn dibynnu ar eich oedran pan fyddwch yn rhoi'r gorau i weithio, mae'n bosib y gallech gymryd eich Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth yn Rhan 2 o'r canllaw hwn.

Rydym wedi darparu cynllunydd cyllideb syml ar ddiwedd y canllaw hwn i'ch helpu.

## Cyngor gan Pension Wise

Mae Pension Wise yn wasanaeth y Llywodraeth gan MoneyHelper. Mae'n cynnig arweiniad di-duedd, am ddim i aelodau sy'n 50 oed a hŷn ar yr hyn y gallant ei wneud gyda'u cynilion cyfraniadau diffiniedig, fel CGY.

Mae'n rhaid i chi naill ai fynychu apwyntiad cyngor gan Pension Wise neu dynnu'n ôl o fynychu un cyn gallwch ddechrau derbyn eich CGY. Rydym yn eich annog i fynd i'r apwyntiad hwn oherwydd fe allai eich helpu i ddeall eich opsiynau CGY. Os dymunwch, gallwn archebu'r apwyntiad ar eich rhan.

Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi pan fyddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â chymryd eich pensiwn CPLlL ac CGY.

## Eich pensiwn CPLlL

Mae eich datganiad buddion blynyddol yn dangos y buddion CPLlL rydych wedi eu cronni hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn ac amcangyfrif o'r buddion y byddech yn eu derbyn petaech yn aros mewn cyflogaeth tan eich oedran pensiwn arferol (OPA).

Mae’n bwysig eich bod yn gwybod faint fydd eich buddion pensiwn ar y dyddiad ymddeol rydych wedi'i ddewis, cyn i chi wneud penderfyniad terfynol. Efallai na fydd y ffigyrau yn eich datganiad yn dweud wrthoch:

- y buddion is fyddai'n cael eu talu os byddwch yn ymddeol yn gynnar
- y buddion fyddai'n cael eu talu os yw eich cyflog neu eich oriau gwaith wedi newid yn ddiweddar neu os byddant yn newid cyn i chi gymryd eich pensiwn
- beth yw effaith gorchymyn rhannu pensiwn (os oes rhan o'ch pensiwn wedi'i ddyfarnu i'ch cyn bartner yn dilyn ysgariad neu ddiddymiad partneriaeth sifil)
- beth yw eich opsiynau os oes gennych CGY mewnol
- os cewch eich effeithio gan derfynau CThEF ar gynilion pensiwn.

Gallwch gael amcangyfrif o'r buddion CPLlL fydd yn daladwy ar ddyddiad penodol drwy ysgrifennu at/e-bostio neu ddefnyddio'r porth ar-lein (Cofiwch na fyddwch yn gallu gweld eich cronfa CGY ar y porth ar-lein).

Bydd angen i'ch cyflogwr wneud cais am amcangyfrif pensiwn ar eich rhan os:

- ydych chi'n ystyried ymddeoliad hyblyg
- oes posibilrwydd y cewch eich diswyddo ar sail gormodedd neu effeithlonrwydd busnes a chithau dros 55 mlwydd oed
- oes posibilrwydd y bydd rhaid i chi adael eich swydd oherwydd gwaeledd.

Mae'r grynodeb ar y dudalen nesaf yn dangos amlinelliad syml o'r broses a gaiff ei dilyn unwaith rydych wedi gwneud penderfyniad terfynol i gymryd eich pensiwn CPLlL.

---

**Cam 1** Siarad gyda’ch cyflogwr a chytuno ar eich dyddiad ymddeol

**Cam 2** Mae eich cyflogwr yn rhoi gwybodaeth i ni am eich tâl, dyddiad gadael a'r rheswm am adael

**Cam 3** Byddwn yn cyfrifo amcangyfrif o'ch buddion pensiwn. Ac yn ei anfon atoch gyda ffurflenni er mwyn i chi gadarnhau:

- eich bod eisiau cymryd eich pensiwn (os yw hyn yn berthnasol)

ac, os ydych chi'n cymryd eich pensiwn:

- eich opsiwn i gyfnewid pensiwn am lwmp swm
- gwybodaeth am bensiynau a lwmp symiau sydd eisoes wedi'u talu i chi
- Opsiynau talu CGY, os oes gennych CGY mewnol, a chadarnhad eich bod wedi mynychu apwyntiad cyngor Pension Wise neu wedi tynnu'n ôl o fynychu un.

Gofynnir i chi hefyd am fanylion banc a chopi o'ch tystysgrif geni neu basbort.

**Cam 4** Rydych chi'n dychwelyd y ffurflenni hawlio pensiwn ac unrhyw dystysgrifau rydym wedi gofyn amdanynt.

**Cofiwch –** unwaith rydych wedi gwneud penderfyniad ynghylch:

- p'un a i gyfnewid pensiwn am lwmp swm a
- sut ydych eisiau i'ch CGY mewnol gael ei dalu

mae'r penderfyniadau hyn yn derfynol ac ni ellir eu gwyrdroi nes ymlaen.

**Cam 5** Byddwn wedyn yn trefnu i'ch pensiwn gael ei dalu ac unrhyw lwmp swm ar ôl eich dyddiad ymddeol.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Gallwn ni ond gyfrifo eich buddion pensiwn (Cam 3) ar ôl i'ch cyflogwr roi'r wybodaeth sydd arnom ei hangen i ni. Unwaith y mae gennym y wybodaeth honno, anelwn i roi cyfrifiad pensiwn i chi o fewn 10 diwrnod.

Unwaith rydym wedi derbyn eich ffurflenni ar ôl i chi eu llenwi, byddwn wedyn yn anelu i dalu eich pensiwn ac unrhyw lwmp swm ar ôl eich dyddiad ymddeol. Cyn belled â bod eich cyflogwr wedi darparu'r rhybudd terfynu i ni – gall hyn ond ddigwydd ar ôl i'ch cyflog olaf gael ei dalu, ac/neu ar ôl cyfrifo eich ffigyrau tâl pensiynadwy terfynol.

Cofiwch y gallai Camau 3 a 5 gymryd hirach os oes gennych gronfa CGY mewnol neu bod y lwfans blynyddol yn effeithio arnoch. Dylech ystyried yr amserlenni hyn wrth benderfynu faint o rybudd i'w roi.

Byddwn yn talu eich pensiwn CPLlL ar y diwrnod gwaith olaf o bob mis. Pan gaiff eich pensiwn ei dalu gyntaf, defnyddir cod treth o OT os ydym heb dderbyn Rhan 2 a 3 o'ch P45. Byddwn yn anfon manylion am eich taliadau pensiwn i CThEF. Bydd CThEF yn rhoi cod treth diwygiedig i ni, os oes angen. Gallwch ddarllen mwy am dreth yn Rhan dau o'r canllaw hwn.

## Cael cymorth pellach

Bydd y penderfyniadau a wnewch pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn yn effeithio ar eich incwm yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae'n bwysig eich bod yn gwneud y penderfyniadau iawn. Mae nifer o sefydliadau yn cynnig cefnogaeth, arweiniad a gwybodaeth. Gallwch weld gwybodaeth gyswllt ar gyfer sefydliadau cefnogol yn Rhan 2 y canllaw hwn.

# Cymorth os oes gennych gwestiwn neu gŵyn

Dylech gysylltu â ni os:

- oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch eich pensiwn CPLlL
- oes gennych gwestiwn am eich aelodaeth neu fuddion o'r CPLlL
- ydych wedi profi unrhyw broblem yn ymwneud â'r CPLlL.

Byddwn yn ceisio ymdrin â'r mater rydych wedi'i godi mor gyflym ac effeithlon â phosib drwy:

- roi gwybodaeth goll i chi
- cywiro unrhyw gamgymeriad, a
- chymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i ddatrys y broblem rydych wedi'i phrofi.

Os ydych chi dal yn anfodlon gyda unrhyw benderfyniad a wnaed ynghylch y CPLlL, gallwch gymryd camau pellach.

- Gallwch ofyn i'ch cwyn gael ei hadolygu gan Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol y Cynllun (IDRP). Mae'r IDRP yn adolygiad ffurfiol o'r penderfyniad, y weithred neu'r diffyg penderfyniad/gweithred rydych yn cwyno yn ei gylch. I ganfod mwy am y weithdrefn IDRP a'r terfynau amser sy'n berthnasol, cysylltwch â ni, neu edrychwch ar y canllawiau ar ein gwefan. Cewch hyd i'n manylion cyswllt ar ddiwedd y canllaw hwn.

  - Os oes gennych gŵyn am sut mae cynllun pensiwn yn cael ei weinyddu neu ei reoli , gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Pensiynau (TPO). Gallwch weld rhagor o wybodaeth a chyflwyno ffurflen gŵyn ar-lein ar wefan y TPO.
  - Gallwch gysylltu â MoneyHelper. Gall MoneyHelper helpu gydag ymholiadau cyffredinol am bensiynau. Gallwch ddarllen mwy am y gwasanaethau maent yn eu cynnig ar y wefan MoneyHelper.

# Rhan 2 – Gwybodaeth Ddefnyddiol Arall

## Pensiwn y Wladwriaeth

Yn ogystal â'ch buddion CPLlL, efallai y byddwch hefyd yn gymwys am bensiwn ymddeol y wladwriaeth, sy'n cael ei dalu gan y Llywodraeth.

Mae faint o bensiwn y Wladwriaeth y byddwch yn ei dderbyn yn seiliedig ar eich cofnod Yswiriant Gwladol.

Ewch i wefan y Llywodraeth am ragor o wybodaeth ar dderbyn eich Pensiwn y Wladwriaeth a sut i'w hawlio.

Gallwch hefyd wirio eich rhagolygon Pensiwn y Wladwriaeth ar-lein.

## Treth a'ch pensiwn

Y Lwfans Personol yw faint o incwm y gallwch ei ennill cyn talu treth. Y Lwfans Personol safonol ar gyfer 2024/25 yw £12,570.

Os yw eich cyfanswm incwm trethadwy yn uwch na'ch Lwfans Personol, yna byddwch yn talu treth. Ni fydd cyfraniadau yswiriant gwladol yn cael eu tynnu o'ch taliadau Pensiwn Llywodraeth Lleol.

Bob blwyddyn bydd eich Cyflogwr neu eich Cronfa Bensiwn (os oes gennych bensiwn yn cael ei dalu) yn rhoi P60 i chi. Mae eich P60 yn dangos beth sydd wedi'i dalu i chi, a faint o dreth sydd wedi'i dynnu ohono. Mae'n bwysig eich bod yn cadw eich P60 mewn lle diogel.

Am fwy o wybodaeth ar dreth incwm, cysylltwch â Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi neu ewch i dudalennau gwe treth incwm y Llywodraeth:

Rhif Ffôn: 0300 200 3300
Gwefan: www.gov.uk/income-tax

## Olrhain hawliau pensiwn blaenorol




Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod yna £400 miliwn o gynilon pensiwn sydd heb eu hawlio. Mae pobl wedi cynilo'r arian hwn ar gyfer eu hymddeoliad.

Er mwyn cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad, mae angen i chi wybod faint o incwm y byddwch yn ei gael. Mae hyn yn cynnwys incwm o gynlluniau pensiwn y gweithle neu rai personol, a'r Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych wedi colli trac ar bensiwn, mae yna wasanaeth gan y Llywodraeth y gallwch ei ddefnyddio i ganfod manylion cyswllt ar gyfer:

- cynllun pensiwn eich gweithle neu gynllun pensiwn personol
- cynllun rhywun arall os oes gennych eu caniatâd.

Cewch fynediad i'r gwasanaeth drwy wefan y Gwasanaeth Olrhain Pensiwn .

**Cofiwch roi gwybod i'ch darparwyr pensiwn os bydd unrhyw newid i'ch cyfeiriad cartref.**

## Sgamiau pensiwn



Rydych wedi gweithio'n galed i gronni eich pensiwn CPLlL. Efallai y bydd sgamwyr yn ceisio cael gafael ar eich cynilion pensiwn.

Gall unrhyw un gael eu twyllo gan sgam pensiwn, waeth pa mor wybodus ydynt. Mae’n bwysig eich bod yn gallu adnabod yr arwyddion.

Mae sgamiau yn anodd i'w hadnabod, ac yn aml iawn maent wedi'u cuddio gan wefannau, geirdaon a deunyddiau credadwy sy'n gwneud iddynt edrych fel rhywbeth go iawn.

I'ch helpu i adnabod yr arwyddion a'ch gwarchod eich hun rhag sgam, mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a'r Rheoleiddiwr Pensiwn yn awgrymu'r pedwar cam syml isod:

## Cam 1 – Gwrthod cynigion annisgwyl

Os bydd rhywun yn cysylltu â chi'n annisgwyl ynglŷn â chyfle pensiwn, mae'n bur debyg mai sgam ydyw. Mae galw diwahoddiad (*cold calling*) ynghylch pensiynau yn anghyfreithlon a dylech fod yn wyliadwrus iawn. Os cewch gynnig adolygiad pensiwn am ddim gan gwmni nad ydych wedi delio â nhw o'r blaen, mae'n siŵr mai sgam ydyw.

## Cam 2 – Gwiriwch efo pwy rydych yn delio

Chwiliwch ar ScamSmart ac edrychwch ar gofrestr yr FCA i wneud yn siŵr bod unrhyw un sy'n cynnig cyngor yn awdurdodedig. Os ydynt, gwiriwch bod ganddynt yr hawl i roi cyngor pensiwn drwy ffonio Llinell Gymorth Defnyddwyr yr FCA ar 0800 111 6768.

Os byddwch yn peidio â defnyddio cwmni sydd wedi'i awdurdodi gan yr FCA, mae risg na fydd gennych fynediad at gynlluniau iawndal.

## Cam 3 – Peidiwch â chael eich rhuthro neu deimlo dan bwysau

Cymerwch eich amser i wneud yr holl wiriadau rydych eu hangen – hyd yn oed os yw hyn yn golygu troi 'bargen anhygoel' i lawr.

## Cam 4 – Chwiliwch am wybodaeth neu gyngor di-duedd

Dylech ystyried o ddifri cael cyngor ariannol cyn newid eich trefniadau pensiwn. Mewn rhai achosion, er enghraifft os ydych eisiau trosglwyddo mwy na £30,000 o gynllun buddion diffiniedig (fel y CPLlL), mae'n rhaid i chi gael y cyngor yma.

Ystyriwch ddefnyddio MoneyHelper sy'n darparu gwybodaeth ac arweiniad annibynnol a di-duedd yn rhad ac am ddim.

## Os ydych yn amau sgam, rhowch wybod amdano.

Gallwch roi gwybod am gwmni anawdurdodedig neu sgam i'r FCA gan ddefnyddio'r ffurflen adrodd ar-lein neu ffonio 0800 111 6768.

Os ydych yn amau sgam, rhowch wybod amdano i Action Fraud ar 0300 123 2040 neu yn www.actionfraud.police.uk/.

**Byddwch yn ScamSmart gyda'ch pensiwn. I gael gwybod mwy, ewch i www.fca.org.uk/scamsmart**

## Ble i fynd am gymorth

**Pension wise** – gwasanaeth y Llywodraeth gan MoneyHelper sy'n cynnig arweiniad di-duedd, am ddim unwaith y byddwch yn 50 oed, i'ch helpu i ddeall eich opsiynau gyda'ch pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Cewch ganfod mwy ar y wefan MoneyHelper neu drwy ffonio **0800 138 3944**.

**MoneyHelper** – mae'n cynnig arweiniad di-duedd ynghylch arian a phensiynau, gyda chefnogaeth llywodraeth y DU, ac mae'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio. Mae MoneyHelper wedi dwyn ynghyd gefnogaeth a gwasanaethau tri o ddarparwyr cyngor ariannol a gefnogir gan y llywodraeth: the Money Advice Service, y Pensions Advisory Service a Pension Wise.

**Which?** – dyma'r corff annibynnol mwyaf ar gyfer cwsmeriaid/defnyddwyr yn y DU. Maent yn darparu cyngor di-duedd ac yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer defnyddwyr, gan gynnwys ar faterion pensiwn.

**Unbiased** – gwefan sy'n rhestru ymgynghorwyr ariannol, brocerwyr morgais, cyfreithwyr a chyfrifwyr annibynnol a rheoledig. Mae'n gwirio bod pawb wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

Yr **Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)** yw'r corff rheoleiddio ar gyfer ymgynghorwyr ariannol annibynnol. Gall yr FCA eich cynorthwyo i adnabod yr arwyddion o sgamiau pensiwn a buddsoddi.

Mae **Cyngor Ar Bopeth** yn rhwydwaith o 250 o elusennau annibynnol drwy'r Deyrnas Unedig sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor cyfrinachol yn rhad ac am ddim i helpu pobl gyda phroblemau arian, cyfreithiol, defnyddwyr a phroblemau eraill.

Mae **Age UK** yn darparu gwybodaeth a chyngor ar faterion ariannol a chyfreithiol, iechyd a llesiant, gofal a chefnogaeth a llawer mwy.

**Independent Age** – elusen pobl hŷn sydd wedi'i lleoli yn y DU. Maent yn darparu amrywiaeth o wybodaeth megis cymorth gyda threth cyngor, credyd pensiwn, lwfans mynychu a llawer mwy. Gallwch weld eu holl gefnogaeth ar y wefan Independent Age neu gallwch eu ffonio ar **0800 3196789**.

# Cynllunydd Cyllideb

Mae'n bwysig deall ble rydych yn gwario eich incwm.  Bydd hwn yn eich helpu i gyfrifo faint o incwm y bydd arnoch ei angen ar ôl ymddeol.  Gallwch ddefnyddio'r cynllunydd hwn fel man cychwyn.


| **Incwm (wythnosol/misol)** | **Swm** |
|---|---|
| Tâl/Cyflog | £ |
| Tâl/Cyflog (Partner) | £ |
| Buddion | £ |
| Arall 1 | £ |
| Arall 2 | £ |
| Arall 3 | £ |
| **Cyfanswm Incwm** | £ |

| **Arian yn mynd allan (wythnosol/misol)** | **Swm** |
|---|---|
| Morgais / rhent | £ |
| Benthyciad(au), cerdyn/cardiau credyd | £ |
| Tâl rhent/gwasanaeth tir | £ |
| Yswiriant | £ |
| Treth Cyngor | £ |
| Nwy | £ |
| Trydan | £ |
| Dŵr | £ |
| Bwyd/cadw tŷ | £ |
| Teithio | £ |
| Ffôn / ffôn symudol | £ |
| Trwydded Deledu / tanysgrifiadau teledu | £ |
| Y Rhyngrwyd | £ |
| Dillad | £ |
| Presgripsiynau / costau iechyd | £ |
| Argyfyngau | £ |
| Arall 1 | £ |
| Arall 2 | £ |
| Arall 3 | £ |
| **Cyfanswm arian yn mynd allan** | £ |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm incwm** | **£** |
| **Cyfanswm yn mynd allan** | **£** |
| **Incwm ar gael** | **£** |

# Sut i gael gwybod mwy

Cewch ragor o wybodaeth am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar [wefan aelodau'r CPLlL.]()




Gallwch ymweld â'n gwefan yn: **www.cronfabensiwngwynedd.cymru**

Gallwch hefyd gysylltu â ni:

| | |
|---|---|
| **Ar y ffôn:** | 01286 679982 rhwng 9 am a 5 pm |
| **Drwy e-bost:** | pensiynau@gwynedd.llyw.cymru |
| **Yn ysgrifenedig:** | Adain Bensiynau<br>Cyngor Gwynedd<br>Stryd y Jêl<br>Caernarfon<br>Gwynedd. LL55 1SH |

## Diogelu Data

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd, ac rydym yn defnyddio eich data personol yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data er mwyn darparu gwasanaeth gweinyddu pensiwn i chi. Am fwy o wybodaeth ynghylch sut ydym yn defnyddio eich data, gyda phwy ydym yn rhannu eich data a pha hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch gwybodaeth, edrychwch ar yr Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan y Gronfa Bensiwn: **www.cronfabensiwngwynedd.cymru**

## Ymwrthodiad

Diben y canllaw hwn yw cynorthwyo aelodau wrth iddynt gynllunio eu hymddeoliad. Mae at ddefnydd cyffredinol ac ni all ymdrin ag amgylchiadau personol pawb. Nid yw'r canllaw'n ymdrin yn llawn â'r lwfans blynyddol â'r goblygiadau treth i aelodau sy'n mynd drosodd. Nid yw'r canllaw hwn yn rhoi unrhyw hawliau cytundebol na statudol ac fe'i darperir i roi gwybodaeth yn unig. Petai unrhyw anghydfod ynghylch eich buddion pensiwn, y ddeddfwriaeth briodol fydd yn dal y grym. Roedd y ddogfen hon yn gywir ar y dyddiad y cafodd ei hysgrifennu. Gallai ffactorau a gwybodaeth newid; ewch i'r gwefannau perthnasol os oes angen.

## Nodiadau